



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebostr/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 22/11/2016 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 22/11/2016 at 7pm.

Presennol / Present: Gareth W Roberts OBE, Myrddin W Owens, Robert Whitfield, Meg Roberts, Gordon Warren, Miriam Sanders, Mike Roberts, Gareth Owen, Cyng/Cllr Wil Hughes

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation), Ray Jones (Pantri No 6)

Ymddiheuriadau / Apologies: Helen Hughes, John Byast, Nige Ault, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso / Welcome

Cadeirwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts ac fe groesawyd rheini oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts and those present were welcomed.

2 Pantri No 6

Croesawyd Mr Ray Jones a diolchwyd iddo am fynychu'r cyfarfod ar ran Pantri No 6. Cafwyd gyflwyniad byr ganddo am waith y banc bwyd a sut yr oedd y mudiad am geisio a chefnogi teuluoedd yr ardal leol dros gyfnod y Nadolig. Deallwyd bod 12-20 teulu yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Fe ofynnodd Mr Jones a fyddai'r Cyngor yn gallu cefnogi'r mudiad yn ariannol er mwyn iddynt gallu cynnig talebau cig £10 (cigydd lleol) i deuluoedd yn ogystal ac anrhegion bychain i blant y teuluoedd rheini. Gofynnwyd i Mr Jones am gopi o gyfrifon mwyaf diweddar y grwp er mwyn i'r Cyngor gallu ystyried eu cais yn llawn. Diolchwyd am y cyfle i gael annerch y Cyngor ac fe adweodd am 19.20.

Wedi i Mr Jones adael, trafodwyd y cais ymhellach. Yn ddibynnol ar y cyfrifon, cynnigwyd a chytunwyd yn unfrydol bod y Cyngor yn cyfrannu cyfanswm o £600 tuag at y fenter fel y ganlyn:
£200 tuag at dalebau cig (20 x £10), a hefyd
£400 tuag at anrhegion bychain i blant y teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rhodddwyd yr hawl i weithredu i'r cadeirydd a'r clerc i dalu'r cyfraniad ar dderbyn y cyfrifon. Byddai'r gefnogaeth yma ar yr amod na fyddai arian yn cael ei drosglwyddo i'r unigiolion, a bod y grwp yn adrodd yn ol i'r Cyngor ym mis Ionawr ar sut ddisbarthwyd yr eitemau a'r nifer o bobl cafodd eu helpu dros gyfnod y Nadolig.

Mr Ray Jones was welcomed and thanked for attending the meeting on behalf of Pantri No 6. He gave a short presentation on the work of the foodbank and how the organisation wanted to try and support local families of the Christmas period. It was understood that 12-20 families use the service at present. Mr Jones asked whether the Council could support the group financially so that they were in a position to offer £10 meat vouchers (local butcher) to families as well as small gifts for the children of those families. Mr Jones was asked for a copy of the most recent accounts for consideration before the request is considered in full. Mr Jones thanked the Council for the opportunity to attend and he left at 19.20.

As soon as Mr Jones had left, the request was discussed further. Dependent on the accounts, it was

proposed and unanimously agreed that the Council contribute a total of £600 towards the venture as follows:

£200 towards meat vouchers (20 x £10) and also

£400 towards small gifts for the children of the families utilising the service.

The chair and clerk were given the power to act to pay the contribution upon receipt of the accounts. This support would on the condition that no money would be handed over to beneficiaries, and that the group report back to the Council in January outlining how the items were distributed and the number of people helped over the Christmas period.

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Cymeradwywyd y cofnodion yn gywir gan Myrddin W Owens, eilio gan Miriam Sanders.

The minutes were approved as correct by Myrddin W Owens, seconded by Miriam Sanders.

4 Materion yn codi / Matters arising

4.1 Maes Parcio Porth Llechog / Bull Bay Car Park

Dim ymateb hyd yma. Cytuno cysylltu a Cyng Richard Jones i'w atgoffa.

No response as yet. Agreed to contact Cllr Richard Jones to remind him.

4.2 Ynys Ynni / Energy Island

Nid oes ymateb fyth ynglyn ag aelodaeth y grwp.

Still no response regarding the membership of the group.

4.3 Llwybr Maes Salem Footpath

Nodwyd bod y gwaith wedi ei gwblhau.

It was noted that the work had been completed.

4.4 Llythyrau gan y Cyngorwyr Sirol y/a Rhosgoch / Letters from the County Councillors re Rhosgoch

Nid yw'r llythyrau i gyd wedi eu derbyn hyd yma. Daw llythyr gan Cyng Aled Jones a Cyng Wil Hughes.

Not all letters have been received as yet. Letters have been received from both Cllrs Aled Jones and Wil Hughes,

4.5 Clwb Pel Droed / Football Club.

Cadarnhawyd bod llythyr wedi ei anfon at Gadeirydd y Clwb. Nid oes ymateb hyd yma. Nodwyd nad oedd y clwb wedi talu rhent ers peth amser. Cytuno trafod mewn manylder a chynnwys y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf.

It was confirmed that a letter had been sent to the Club Chairman. There is no response as yet. It was noted that the Club had not paid rent for some time. Agreed to discuss in detail and include the matter on the agenda for the next meeting.

4.6 Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

Cadarnhawyd byddai'r goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen dydd Gwener 25/11/2016 am 5 o'r gloch. Mae Brenhines Carnifal Amlwch, Sion Corn a Chor yr Ysgol Gynradd wedi cadarnhau eu presenoldeb. Bydd Ffair Nadolig i ddiyn yn y Neuadd Goffa.

It was confirmed that the lights will be switched on at 5pm, Friday 25/11/2016. Amlwch Carnival Queen, father Christmas and the School Choir have all confirmed their attendance. A Christmas Fair will follow at the Memorial Hall.

5 Seddi Gwag / Vacant Seats

Cyng Wil Hughes yn datgan diddordeb / Cllr Wil Hughes declared an interest.

Mae pedwar sedd wag ar y Cyngor ar hyn o bryd. Daw tri cais i'w llenwi. Cadarnhawyd bod cyfweiliadau wedi eu cynnal y tro diwethaf fod seddi gwag gan fod mwy o ymgeiswyr na seddi. Cytuno derbyn y tri unigolyn sef Dafydd Roberts (gwledig), Wil Hughes (gwledig) ac Daniel ap Eifion Jones (porth). Bydd y pedwerydd sedd, yn unol a'r rheolau yn aros yn wag nes yr etholiad ym Mai.

There are currently four vacant seats on the Town Council. There are three applications. It was confirmed that interviews were held last time as there were more applicants than seats. Agreed to accept the three individuals: Dafydd Roberts (rural), Wil Hughes (rural) and Daniel ap Eifion Jones (port). The fourth seat, in line with the rules, will stay vacant until the elections in May.

6 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

6.1 Pwyllgor Safonau / Standards Committee

Cafwyd grynodedb gan Myrddin Owens o drafodaeth a gafwyd gydag aelodau'r pwyllgor tra yn archwilio rhai o ddogfennau'r Cyngor. Nodwyd pwysigrwydd bod aelodau yn dilyn y Cod Ymddygiad, gan gynnwys datgan diddordeb, a bod hyfforddiant ar gael i aelodau newydd. Awgrymwyd bod y Cyngor yn cysylltu a'r adran gyfreithiol (CSYM) i ofyn a fyddai posib cynnal hyfforddiant o'r fath i'r holl aelodau yn dilyn etholiadau mis Mai. Byddai posib cynnal y fath hyfforddiant ar y cyd a chynghorau eraill gogledd Mon.

Myrddin Owens gave a brief summary of a discussion with members of the committee whilst they were auditing some of the Council's documents. The importance of members adhering to the code of conduct including declaring any interest was emphasised. It was also noted that training was available for new members. It was suggested that the Council contact the legal dept (IACC) to ask whether it would be possible to arrange such training for all members following the elections in May. It would be possible to arrange such training in partnership with the other north Anglesey councils.

6.2 Cyngor Cymued Rhosybol Community Council

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus gan y Cyngor Cymuned i drafod pryderon ynglyn a'r Grid Cenedlaethol a'u cynlluniau am beilonau ar draws yr ynys. Pwysleiswyd pwysigrwydd bod unigiolyn yn ogystal a grwpiau ac mudiadau yn ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y Cyngor Tref yn amlwg yn ymateb. Pwysleiswyd pwysigrwydd bod cynghorau cymuned yr ardal yn cefnogi eu gilydd.

Yn dilyn o'r drafodaeth, mae'n hanfodol bwysig bod y Cyngor Sir a'r holl gynghorau Cymuned yn cydweithio. Fe gynnigodd Gareth W Roberts yn y cyfarfod bod angen swyddog pwrpasol i weithio ar y prosiect ar ran trigolion Mon. Bydd Cyng Aled Jones yn dod a'r cynnig ger bron y Cyngor Sir. Gobeithir gallu sicrhau arian gan y Grid Cenedlaethol a'r Cyngor Sir tuag at ariannu'r swyddog hwnw.

The Community Council had arranged a public meeting to discuss concerns regarding the National Grid and their plans for overhead cables / pylons across the island. The importance of individuals as well as groups and organisations responding to the consultation was emphasised. The Town Council will obviously be responding. The importance of the area's community councils supporting each other was also emphasised.

Following from the discussions, it is essential that the County Council and the island's community councils co-operate. During the meeting, Gareth W Roberts proposed that a specific officer be appointed to work on the project on behalf of Anglesey residents. Cllr Aled Jones will bring the proposal to the attention of the County Council. It is hoped that funding could be secured from both National Grid and the County Council towards funding the officer's post.

6.3 Cyfarfod blynyddol Cyngor Ar Bopeth / Citizen's Advice AGM

Roedd Gordon Warren wedi mynychu ar ran y Cyngor. Nododd bod y corff wedi diolch i'r Cyngor am gael defnyddio ystafelloedd yn rhad ac am ddim nifer o weithiau drwy gydol cyflwyniadau. Y brif fater o bwys ganddynt oedd y nifer o asesiadau oedd yn cael eu cyflwyno drwy apel. Deallwyd bod 70% o'r rheini oedd yn cael eu cyflwyno yn ennill eu hachos.

Gordon Warren had attended on behalf of the Council. He noted that the organisation had thanked the Council for the use of facilities free of charge on a number of occasions throughout the presentations. The main issue of concern at present was the number of assessments being presented to appeal. It was understood that 70% of those presented to appeal were successful.

6.4 Fforwm Pobl Hyn Mon / Anglesey Older People's Forum

Fe nododd Gordon Warren ei fod yn mynychu'r cyfarfodydd yma ar ran grwp cymunedol. Fe ofynnodd os oedd cynrychiolydd o'r Cyngor Tref, ac a fyddai'r Cyngor yn hoffi iddo adrodd yn ol o'r

cyfarfodydd. Nodwyd nad oedd cynrychiolydd o'r Cyngor ac fe ofynwyd i Gordon Warren wneud ymholiadau er mwyn ffurfioli'r sefyllfa os oedd y fforwm yn fodlon i gynrychiolydd o'r Cyngor ymaelodi.

Gordon Warren noted that he attends these meetings on behalf of a community group. He asked whether the Town Council is represented, and whether the Council would like him to feedback from the meetings. It was noted that there was no Council representative on the forum and Gordon Warren was asked to make enquiries to formalise the situation and ascertain whether the forum would be willing for the Town Council to be represented.

7 **Cynllunio / Planning**

Cafwyd grynodedb o gyfarfod diweddaraf y pwyllgor cynllunio.
A summary was given of the planning committee's last meeting.

Cadarnhawyd penderfyniadau'r Cyngor Sir fel y ganlyn:

County Council decisions were noted as follows:

30 Pentrefelin – caniatad/granted

Ysgubor Bodgadfa – caniatad/granted

Coach House, Bull Bay – caniatad/granted

Cadarnhawyd penderfyniadau ac argymhellion y pwyllgor cynllunio ar y ceisiadau newydd:

The planning committee's decisions and recommendations on new applications were confirmed:

- **Glyn Llifon (11C641)** – dim gwrthwynebiad / no objection
- **1 Maes Salem** – cefnogi, dim gwrthwynebiad / support, no objection
- **Cliff Davies & Son (11C639/FR)** – dim gwrthwynebiad ond nodwyd nifer o bwyntiau i'w hystyried / *no objection n but a number of points raised for consideration*
- **Gyferbyn a/ Adj to Y Fron, Tan y Bryn Rd (11C391A)** – nid oedd yr aelodau yn teimnlo eu bod mewn sefyllfa i roi barn ar y cais fel ag yr oedd wedi ei gyflwyno / *members did not feel they were in a position to make a decision based on the application as presented.*

8 **Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**

Cafwyd grynodedb o gyfarfodydd diwethaf y Pwyllgor Cyllid gan Myrddin Owens. Nodwyd bod y pwyllgor wedi cael dau gyfarfod yn y mis er mwy gallu trafod materion yn fanwl h.y. adroddiad yr archwiliwr a'r rheolau sefydlog.

Dosbarthwyd gopi o'r adroddiad chwarterol i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Nodwyd bod £4k wedi ei glustnodi tuag at goleuadau Nadolig a bod grant o £2250 wedi ei sicrhau ers hynnu. Pawb yn bresennol yn hapus i godi'r gyllideb goleuadau i gynnwys y grant gan fod peth gwaith cywiro ac ychwanegu i'w wneud. Nodwyd bod angen newid yr holl oleuadau i rai LED eleni er mwyn dilyn rheolau iechyd a diogelwch.

Myrddin Owens gave a short overview of the last Finance Committee meeting. It was noted that the committee had met twice in the last month in order to discuss matters in detail i.e. auditors' report and the standing orders.

A copy of the quarterly report was distributed to all present for information. It was noted that £4k had been earmarked for Christmas Lights and that a grant of £2250 had been secured since then. All present were happy to increase the budget to include the grant as some repairs and additions were required. It was noted that all lights had been changed to LED in order to comply with health and safety regulations.

9 **Rheolau Sefydlog / Standing Orders**

Mae'r ddogfen wedi ei drafod mewn manylder gan y pwyllgor Cyllid ac wedi ei anfon i'r holl aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Cynnigwyd bod y Cyngor Llawn yn eu mabwysiadu. Pawb yn gytun.

The document has been discussed in detail by the finance committee and has been sent out by email to all members prior to the meeting. It was proposed that the Full Council adopt the document. All in agreement.

10 Toileadau Cyhoeddus / Public Toilets

Dim diweddariad / No update

11 Llyfrgelloedd / Libraries

Dim diweddariad / No update

12 Wylfa Newydd

Cafwyd gadarnhad gan swyddfa Albert Owen ei fod yn ceisio trefnu cyfarfod gyda prif swyddogion Horizon – y dyddiad i'w gadarnhau cyn gynted a phosib.

Nodwyd bod si yn y gymuned bod 12 o bobl lleol wedi colli eu swyddi gyda Horizon. Cytuno bod angen cysylltu am eglurhad. Nodwyd bod system yn ei le yn ne Lleogr er mwyn sicrhau bod pob lleol yn cael gwaith yn bod pobl pellach i ffwrdd yn cael eu cyflogi.

Mae'n debyg bod Horizon yn cyflogi nifer o swyddogion ar y cyd gyda CSYM – pwy ac i ba pwrpas? Nid oes budd i ogledd yr ynys hyd ag y gwelwn hyd yma.

Deallwyd bod Horizon yn cael rhoi barn ar geisiadau cynllunio yn ardaloedd Llanbadrig a Mechell. Teimlwyd nad oedd hyn yn deg gan nad ydynt yn gorff statudol. Cytuno cysylltu a'r adran gynllunio am gadarnhad.

Albert Owen's office have confirmed that he is trying to arrange a meeting with Horizon's senior officers – date and time to be confirmed as soon as possible.

Local rumour notes that 12 local people have been made redundant by Horizon. Agreed contact should be made for an explanation. It was noted that there is a system in south of England to ensure that local people get work before people further afield are employed.

It appears that Horizon employ a number of officers jointly with IACC – who and for what purpose? There is no benefit to the north of the island as far as can be seen.

It was understood that Horizon are consulted on all planning applications in Llanbadrig and Mechell. It was felt that this was unfair as they are not a statutory body. Agreed to contact the planning department for confirmation.

13 Gohebiaeth / Correspondence

13.1 Cwrdd a'r Heriau / Meeting the Challenges

Cafwyd epost gan Cyng Aled Jones yn cynnig bod y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi bod angen safleoedd ac unedau busnes yn Amlwch ac y byddai posib cyllido eu datblygiad o fewn cyllideb cyfalaf y Cyngor Sir 2017/18. Cytuno ymateb i Cyng Aled Jones yn gefnogol o'r syniad ac yn nodi bod angen safleoedd Swyddfa yn ogystal a gweithdai. Bydd y ddogfen yn ei gyfarwydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid yn eu cyfarfod nesaf.

An email from Cllr Aled Jones proposed that the Town Council respond to the consultation noting that business units are required in Amlwch and that it would be possible to finance their development from the IACC capital budget for 2017/18. Agreed to respond to Cllr Aled Jones in support of the idea noting that there is a need for office space as well as workshops. The document in its entirety will be considered by the Finance Committee at their next meeting.

13.2 Safle Bws / Bus Stop

Cafwyd epost gan Cyng Aled Jones yn gofyn am farn y Cyngor i symud y safle bws o Lon Goch i Stryd y Frenhines. Byddai hyn yn golygu colli llefydd parcio yn y stryd ond o bosib yn cynyddu'r nifer o bobl yn y stryd. Cytuno ystyried a thrafod ymhellach wedi cael adroddiad llawn gan y Cyngor Sir. Nodwyd bod y safle bws wedi ei symud yn y gorffennol ond nad oedd y symudiad wedi bod yn un llwyddianus. Fe gynigodd Gareth W Roberts bod yn Cyngor yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddiddymu rhywfaint o'r llinellau melyn gan nad oes oes cymaint o draffig yn y stryd mwyach.

Cllr Aled Jones has emailed asking for the Council's views on moving the bus stop from Lon Goch to Queen street. This would mean losing some parking spaces in the street but possibly increase the footfall of people in the street. Agree to consider and discuss further upon receipt of a full report from

the County Council. It was noted that the bus stop had unsuccessfully been moved in the past. Gareth W Roberts proposed that the Council contact the County Council to ask that some of the yellow lines are removed as there is no longer as much traffic in the street.

14 Unrhyw fater arall / Any other business

14.1 Ymddiriedolaeth Elusennol Mon / Anglesey Charitable Trust

Cafwyd wybod gan Cyng Aled Jones drwy ebost bydd grantiau cyfalaf hyd at £350k ar gael o'r gronfa yn y flwyddyn newydd.

An email from Cllr Aled Jones informed all present that capital grants of up to £350k will be available from the trust in the new year.

14.2 Blychau Ffon BT Phone Boxes

Deallwyd nad oedd mabwysiadu blwch yn diogelu'r gwasanaeth ffon ynddo. Cytuno gwrthwynebu'r cynlluniau i ddiddymu'r blychau ffon.

It was understood that adopting the kiosk did not safeguard the telephone within. Agreed to object to the plans to close any of the phone boxes.

14.3 Fforwm Twristiaeth Mon / Anglesey Tourism Forum

Daw gwybodaeth am cyfarfod nesaf y Fforwm. Penodwyd Mike Roberts i gynrychioli'r Cyngor ar y fforwm, gyda Meg Roberts yn dirprwyo pan na fydd Mike Roberts yn gallu mynychu cyfarfodydd.

Information regarding the next meeting has come to hand. Mike Roberts was appointed to represent the Council on the forum, with meg Roberts to deputise when Mike Roberts was unable to attend.

14.4 Fforwm Defnyddwyr Porth Amlwch / Amlwch Port User's Group

Cafwyd cefndir y grwp gan Gareth W Roberts er gwybodaeth. Cynnigwyd Robert Whitfield yn gynrychiolydd y Cyngor Tref o hyn allan. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.

Gareth W Roberts gave some background information. Robert Whitfield was nominated to represent the Town Council from now on. Proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts.

15 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 13/12/2016 am 7yh.

The next meeting will be held Tuesday evening 13/12/2016 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 21:00 o'r gloch. / *The meeting closed at 21:00pm.*

CET12/2016

Arwyddwyd / Signed
Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd/Chair